

Adroddiad Rheoleiddiol Blynyddol CCAUC

2020/21



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cynnwys

Rhagair	2
Adran 1 – Cyflwyniad.....	3
Adran 2 – Cynlluniau Mynediad a Ffioedd.....	6
2.1 Cyflwyniad	6
2.2 Cyflawni swyddogaethau yn ystod y cyfnod adrodd (2020/21).....	6
2.3 Canlyniadau gweithgareddau wrth gyflawni swyddogaethau.....	8
2.4 Methu cydymffurfio â'r system reoleiddiol ac achosion o ymyrryd	9
Adran 3 – Ansawdd yr Addysg	10
3.1 Cyflwyniad	10
3.2 Cyflawni swyddogaethau yn ystod y cyfnod adrodd.....	10
3.3 Canlyniadau gweithgareddau wrth gyflawni swyddogaethau.....	11
3.4 Methu cydymffurfio â'r system reoleiddiol ac achosion o ymyrryd	12
Adran 4 – Materion Ariannol Sefydliadau a Reoleiddir.....	13
4.1 Cyflwyniad	13
4.2 Cyflawni swyddogaethau yn 2020/21	13
4.3 Canlyniadau gweithgareddau wrth gyflawni swyddogaethau.....	14
4.4 Methu cydymffurfio â'r system reoleiddiol ac achosion o ymyrryd	15
Adran 5 – Datganiad Ymyrraeth	16
Adran 6 – Datganiad Sicrwydd	17

Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno ein Hadroddiad Rheoleiddio Blynyddol, sy'n esbonio sut y gwnaethom gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio yn ystod blwyddyn academiaidd 2020/21.

Mae'r adroddiad wedi cael ei gymeradwyo gan ein Cyngor yn dilyn gwaith craffu gan ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ein Pwyllgor Sicrhau Ansawdd a'n Pwyllgor Rheoleiddio. Manylir ar y swyddogaethau rheoleiddio rydym wedi'u cyflawni ers 31 Gorffennaf 2021 yn yr adroddiadau nesaf. Mae ein pwerau rheoleiddio yn benodol ac wedi'u cyfyngu i rai agweddau ar weithgarwch sefydliadau a reoleiddir; gan hynny ni allwn ond ymyrryd mewn materion sydd oddi mewn i gwmpas ein swyddogaethau rheoleiddio. Wrth inni gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio ffurfiol, rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r sector i wella arferion.

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r flwyddyn academiaidd lawn gyntaf yr effeithiodd pandemig y Coronafeirws (Covid-19) arni. Fel pob sefydliad arall, mae'r pandemig yn parhau i effeithio ar sefydliadau a reoleiddir, ac rydym wedi parhau â'r fersiwn symlach o'n prosesau rheoleiddio, a sefydlwyd gennym yn 2019/20, yn ystod 2020/21. Gwnaed hyn i alluogi sefydliadau i ganolbwyntio ar eu myfyrwyr, eu staff a'u cymunedau. Ni wnaed y penderfyniad hwn yn ysgafn, ac ni chafodd ei wneud ond ar ôl gofyn am gyngor ein Pwyllgorau a chynnwys partneriaid, yn enwedig Llywodraeth Cymru, NUS Cymru a'r sefydliadau eu hunain, yn ein proses benderfynu. Er inni ddiwygio ein dulliau rheoleiddio ffurfiol dros dro i gyd-fynd ag amgylchiadau eithriadol, rydym wedi cadw cyswllt agos â'r sefydliadau a reoleiddir i gael y sicrwydd angenrheidiol ynghylch rheoleiddio ac, yn enwedig, i sicrhau ein bod yn deall sefyllfa gyfredol y sefydliadau.

Yn ystod y pandemig, rhoddwyd llawer o sylw yn y wasg i bryderon gan fyfyrwyr ynghylch lefelau ffioedd, ond ni chaiff y pryderon hynny eu hadlewyrchu yn yr adroddiad hwn, naill ai gan nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol i'n dyletswyddau rheoleiddio, neu y gallent fod yn mynd drwy'r sianelau sefydledig ar gyfer codi pryderon a chwynion. Os na fydd myfyrwyr addysg uwch yn fodlon ar y canlyniadau o sianeli sefydliadol, gallant eu cyfeirio i sylw Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch. Nid yw'n briodol inni achub y blaen ar ganlyniadau'r sianelau hynny sydd wedi'u sefydlu, ac ni chawn ond ymwneud ag achosion perthnasol ar ôl i'r prosesau hynny gael eu cwblhau. Byddwn yn ymgysylltu â sefydliadau lle ceir hyd i broblemau systematig, ond mae'n bosibl na fydd hynny bob tro yn digwydd mewn cyd-destun rheoleiddio, ac na fydd y problemau hynny oddi mewn i gwmpas yr adroddiad hwn, nac unrhyw adroddiadau dilynol.

Mae ein hadroddiad yn cael ei gyflwyno wrth i'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) fynd rhagddo drwy'r Senedd. Rydym wedi cefnogi sefydlu corff hyd braich newydd i oruchwylio system gydlynol ac integredig ar gyfer addysg ôl-orfodol ers i'r Athro Ellen Hazelkorn gynnig hynny yn 2016. Byddwn yn parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru i wireddu'r uchelgais hwnnw rwy sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Ar yr un pryd byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio i ddiogelu buddiannau myfyrwyr a buddsoddiad cyhoeddus mewn addysg uwch.



Rob Humphreys
Cadeirydd

Adran 1 – Cyflwyniad

- 1.1 Cafodd Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 (Deddf 2015) gydsyniad brenhinol ar 12 Mawrth 2015, gan wella rôl Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) fel corff rheoleiddio. Daeth Deddf 2015, a ategir gan chwe chyfres o reoliadau, i rym yn raddol yn ystod cyfnod pontio, a ddaeth i ben pan ddaeth y Ddeddf i rym yn llawn ar 1 Awst 2017.
- 1.2 Mae Deddf 2015 yn pennu dyletswyddau penodol i CCAUC yn y meysydd canlynol:
- Terfynau ffioedd myfyrwyr,
 - Gwella cyfleoedd cyfartal a hybu addysg uwch,
 - Ansawdd addysg,
 - Materion ariannol.
- 1.3 Mae'n ofynnol i sefydliadau a reoleiddir o dan y Ddeddf gydymffurfio â chyfarwyddiadau CCAUC yn y meysydd hyn. Caiff ymreolaeth sefydliadol ei datgan yn eglur yn y Ddeddf ac mae dyletswyddau a phwerau ymyrryd CCAUC wedi'u cyfyngu i'r meysydd hynny sydd wedi'u pennu yn y Ddeddf yn unig, fel y'u nodir yn y paragraff uchod.
- 1.4 Nid yw pwerau CCAUC o dan Ddeddf Addysg Bellach 1992 o fewn cwmpas yr adroddiad hwn.
- 1.5 Un o'r disgwyliadau sy'n ofynnol gan CCAUC yw ei fod yn darparu i Weinidogion Cymru adroddiad blynyddol ar y modd y mae wedi cyflawni ei swyddogaethau yn unol â'r Ddeddf ar ddiwedd pob cyfnod adrodd. Yr adroddiad hwn yw'r pedwerydd i ni ei gyflwyno o dan y gofyniad hwn a bydd yn berthnasol i'r cyfnod adrodd rhwng 1 Awst 2020 a 31 Gorffennaf 2021. Bydd swyddogaethau a gyflawnwyd ar ôl 31 Gorffennaf 2021, ond sy'n berthnasol i Gynlluniau Mynediad a Ffioedd blaenorol, yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau diweddarach.
- 1.6 Mae ein hadroddiad wedi'i lunio'n unol â'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Y disgwyliadau a nodir yn y cyfarwyddyd yw bod yr adroddiad blynyddol yn cynnwys y canlynol:
- Esboniad o'r modd y mae CCAUC wedi cyflawni ei swyddogaethau o dan:
 - a) Adran 7 – cymeradwyo Cynlluniau Mynediad a Ffioedd,
 - b) Adran 15 – monitro a gwerthuso cydymffurfiaeth ac effeithiolrwydd Cynlluniau Mynediad a Ffioedd,
 - c) Adran 17 – asesu ansawdd yr addysg a ddarperir gan neu ar ran sefydliadau a reoleiddir, ac
 - ch) Adran 31 – monitro cydymffurfiaeth â'r Cod Rheolaeth Ariannol.
 - Canlyniadau'r gweithgareddau y bu CCAUC yn ymgymryd â hwy wrth gyflawni'r swyddogaethau a restrir uchod. Dylai hyn gynnwys crynodeb o'r canlynol:
 - a) ceisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd, eu cymeradwyo a'u gwrthod,
 - b) cydymffurfiaeth y sector a reoleiddir â therfynau ffioedd a gofynion cyffredinol cynlluniau mynediad a ffioedd sydd wedi'u cymeradwyo,
 - c) Yr adolygiadau asesu ansawdd a gynhaliwyd a chanlyniadau'r adolygiadau hynny
 - ch) cydymffurfiaeth y sector a reoleiddir â'r Cod.

- Manylion am unrhyw fethiannau ar ran sefydliadau a reoleiddir i gydymffurfio â gofynion y system reoleiddiol ac achosion lle mae CCAUC wedi defnyddio ei swyddogaethau ymyrryd o dan:
 - a) Adran 11 – cyfarwyddiadau ad-dalu a chydymffurfiaeth,
 - b) Adran 13 – cyfarwyddiadau mewn perthynas â methu cydymffurfio â gofynion cyffredinol cynllun mynediad a ffioedd cymeradwy,
 - c) Adran 19 – cyfarwyddiadau mewn perthynas ag ansawdd annigonol,
 - d) Adran 20 – mesurau eraill mewn perthynas ag ansawdd annigonol,
 - e) Adran 33 – cyfarwyddiadau mewn perthynas â methu cydymffurfio â'r Cod,
 - f) Adran 34 – mesurau eraill mewn perthynas â methu cydymffurfio â'r Cod,
 - g) Adran 37 – hysbysiad gwrthod cymeradwyo cynllun mynediad a ffioedd newydd,
 - h) Adran 38 – dyletswydd CCAUC i dynnu cymeradwyaeth cynllun mynediad a ffioedd yn ôl os nad yw sefydliad a reoleiddir yn bodloni gofyniad adran 2(3)¹ mwyach, ac
 - i) Adran 39 – pŵer CCAUC i dynnu cymeradwyaeth Cynllun Mynediad a Ffioedd yn ôl.
- Manylion y camau gweithredu y mae CCAUC wedi'u rhoi ar waith i ddatrys y methiant rheoleiddiol dan sylw a'r cynnydd a wnaed gan y sefydliad a reoleiddir wrth roi'r camau gweithredu angenrheidiol ar waith; a
- Datganiad sicrwydd sy'n cynnwys trosolwg o gydymffurfiaeth y sector a reoleiddir â'r system reoleiddiol sydd wedi'i datgan yn Neddf 2015 ac yn tynnu sylw at unrhyw feysydd sy'n peri pryder neu risg.

1.7 Mae'r adroddiad hwn wedi'i drefnu'n dair prif bennod er mwyn adrodd yn erbyn y meysydd hynny y mae Gweinidogion Cymru'n disgwyl inni eu trafod: Cynlluniau Mynediad a Ffioedd, ansawdd addysg a materion ariannol. Ceir Datganiad Sicrwydd hefyd ynghylch ein cydymffurfiaeth â'r system reoleiddio.

1.8 Drwy gydol yr adroddiad hwn byddwn yn cadarnhau a fu unrhyw fethiannau ar ran sefydliadau a reoleiddir i gydymffurfio â'r system reoleiddiol. Rydym wedi gweithredu mewn tair ffordd eang er mwyn gweld a fu unrhyw fethiannau o ran cydymffurfiaeth. Dyma'r tair ffordd o weithredu:

- Hunanadroddiadau gan sefydliadau a reoleiddir, boed hynny ar sail ad hoc neu drwy gylchoedd adrodd cynlluniedig,
- Cwynion a dderbynnir drwy [system gwynion](#) CCAUC a sefydlwyd i wella ei rôl reoleiddio, a
- Gwaith monitro CCAUC, gan gynnwys monitro ffurfiol drwy ymgysylltu â sefydliadau a reoleiddir, trafodaethau â chyrrff allanol eraill neu fonitro systemau data.

Esbonnir y ffyrdd hyn o weithredu os yw hynny'n berthnasol ac yn ôl yr angen drwy gydol yr adroddiad.

1.9 Cyflwynir yr adroddiad hwn yng nghyd-destun pandemig Covid-19, sydd wedi cael effaith sylweddol ar addysg uwch. Fel yr amlinellwyd yn yr Adroddiad Rheoleiddiol Blyneddol blaenorol, roeddem [wedi diwygio ein prosesau rheoleiddio](#) er mwyn helpu sefydliadau i ymateb i'r pandemig a chefnogi eu myfyrwyr. Yn sgil y dull diwygiedig parhaus hwn o gynnal ein prosesau rheoleiddio, rydym wedi ceisio canfod ffyrdd eraill i sicrhau bod sefydliadau'n parhau i fodloni eu disgwyliadau rheoleiddio. Rydym wedi adolygu ein prosesau rheoleiddio yn synhwyrol a chan ddilyn y broses

¹ Yn ôl Adran 2 (3) Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 mae'n rhaid i ymgeisydd cynllun mynediad a ffioedd fod yn sefydliad yng Nghymru sy'n darparu addysg uwch, a rhaid iddo fod yn elusen.

briodol, gan gynnwys trafodaethau â'r Cyngor, Pwyllgorau perthnasol, Llywodraeth Cymru, sefydliadau a reoleiddir a rhanddeiliaid allweddol eraill fel NUS Cymru, ac wedi penderfynu parhau i symleiddio ein prosesau rheoleiddio.

- 1.10 O ganlyniad i newidiadau i drefniadau dysgu ac addysgu a wnaed gan sefydliadau a reoleiddir mewn ymateb i bandemig Covid-19, rydym yn cydnabod bod rhai myfyrwyr wedi codi pryderon ynghylch gwerth eu buddsoddiad mewn ffioedd dysgu. Nid yw pryderon fel hyn oddi mewn i gwmpas ein pwerau i reoleiddio lefelau ffioedd yng Nghymru. Lle bo gennym bryderon systemig ynghylch ansawdd addysg neu brofiadau ehangach myfyrwyr, byddwn yn ymgysylltu'n uniongyrchol â sefydliadau ac yn defnyddio ein pwerau rheoleiddio lle bo angen. Mae gennym hefyd broses gwyno lle gall myfyrwyr godi pryderon fel hyn. Er mwyn inni allu mynd ar drywydd materion a godir drwy ein proses gwyno, bydd angen tystiolaeth arnom o fod wedi dilyn prosesau'r sefydliad rheoledig perthnasol, a bod materion perthnasol wedi'u trafod â Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch. Gall gymryd amser i ddilyn yr holl brosesau hyn yn llawn. O ganlyniad i hyn, mae'n bosibl na fydd yr adroddiad hwn nac adroddiadau yn y dyfodol yn trafod pryderon ynghylch gwerth am arian, na phryderon ehangach ynghylch profiadau myfyrwyr. Fodd bynnag, hoffem sicrhau'r cyhoedd y byddwn yn ymgysylltu â sefydliadau ac yn defnyddio'r ystod o bwerau sydd ar gael inni, os cawn hyd i faterion sy'n destun pryder.

Adran 2 – Cynlluniau Mynediad a Ffioedd

2.1 Cyflwyniad

- 2.1.1 Mae'n ofynnol i bob sefydliad yng Nghymru sy'n dymuno cael ei reoleiddio gan CCAUC fod â chynllun mynediad a ffioedd sydd wedi'i gymeradwyo gan CCAUC. Mae bod yn sefydliad a reoleiddir yn galluogi i fyfyrwyr cymwys sy'n astudio cyrsiau gradd amser llawn a TAR SAC (Statws Athro Cymwysedig) yn y sefydliad hwnnw gael cymorth myfyrwyr Cymru. Mae cynlluniau mynediad a ffioedd yn nodi lefelau ffioedd sefydliadau ar gyfer darpariaeth cyrsiau gradd amser llawn a TAR SAC ar gyfer y flwyddyn academiaidd mae'r cynllun yn berthnasol iddi, ac ymrwymadau ar gyfer gwella cyfle cyfartal a hybu addysg uwch. Ar ôl cyflwyno cynllun mynediad a ffioedd, mae'n rhaid i sefydliad dangos ei fod yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol a gysylltir â sefydliad a reoleiddir, sef y rhai a restrir isod:
- ei fod yn sefydliad,
 - ei fod wedi'i leoli'n gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru,
 - ei fod yn darparu addysg uwch,
 - ei fod yn elusen,
 - ei fod yn hyfyw yn ariannol,
 - ei fod wedi'i reoli'n dda yn ariannol,
 - ei fod yn darparu addysg o ansawdd.
- 2.1.2. Yn yr adran hon o'r adroddiad, disgrifir y modd y mae CCAUC wedi cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â Chynlluniau Mynediad a Ffioedd hyd at 31 Gorffennaf 2021, gan gynnwys:
- Datblygu ei brosesau ar gyfer Cynlluniau Mynediad a Ffioedd cyn y cyfnod adrodd,
 - Cymeradwyo neu wrthod Cynlluniau Mynediad a Ffioedd,
 - Sicrhau cydymffurfiaeth â therfynau ffioedd perthnasol, a
 - Monitro cydymffurfiaeth â Chynlluniau Mynediad a Ffioedd a gwerthuso eu heffeithiolrwydd.
- 2.1.2 Fel y soniwyd yn y rhagarweiniad, rydym wedi diwygio ein prosesau rheoleiddio, gan gynnwys y rhai hynny sy'n gysylltiedig â Chynlluniau Mynediad a Ffioedd. Adlewyrchir hyn yn ein hadroddiad isod.

2.2 Cyflawni swyddogaethau yn ystod y cyfnod adrodd (2020/21)

- 2.2.1 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn disgrifio sut yr aethom ati i gyflawni ein holl swyddogaethau yn gysylltiedig â Chynlluniau Mynediad a Ffioedd. Mae hyn yn cynnwys cymeradwyo Cynlluniau Mynediad a Ffioedd, yn ogystal â sicrhau cydymffurfiaeth â lefelau ffioedd a gofynion cyffredinol Cynlluniau Mynediad a Ffioedd

Monitro a Gwerthuso Cynlluniau Mynediad a Ffioedd 2019/20

- 2.2.2 Rydym wedi ein sicrhau bod yr holl sefydliadau a reoleiddir wedi cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â gofynion cyffredinol eu Cynlluniau Mynediad a Ffioedd perthynol ar gyfer 2019/20.
- 2.2.3 Wrth gynnal yr asesiad hwn, rydym wedi cael sicrwydd oddi wrth gorff llywodraethu pob sefydliad a reoleiddir, wedi adolygu cwynion a gafodd CCAUC am sefydliadau,

ac wedi dadansoddi data perthnasol gan gynnwys y rhai a ddelir gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA).

Meysydd i'w Gwella

- 2.2.4 Ac ystyried effaith ddifrifol Covid-19 ar sefydliadau a reoleiddir, ni wnaethom ofyn am ein ffurflen gwerthuso blynyddol yn ystod 2020/21. Cytunodd ein Cyngor, gyda chyngor gan ein Pwyllgor Rheoleiddio, nad oedd yn rhesymol nac yn bosibl cynnal yr holl weithgareddau, yr oedd llawer ohonynt yn weithgareddau wyneb yn wyneb. Effeithiodd y ddarpariaeth gyfyngedig ar fuddsoddiad a gynlluniwyd yn 2019/20. Cydnabuwyd y dylai sefydliadau ganolbwyntio ar gefnogi myfyrwyr a staff ar yr adeg hon.

Amrywio Cynlluniau Mynediad a Ffioedd 2021/22

- 2.2.5 Ar ôl cymeradwyo ceisiadau Cynllun Mynediad a Ffioedd 2021/22, yn erbyn meini prawf a gofynion rhagosodedig, ym mis Mai 2020 gofynnwyd i sefydliadau gyflwyno Cynllun Mynediad a Ffioedd 2021//22 newydd ar gyfer mis Mawrth 2021. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad blaenorol yn rhan o'n diwygiadau i brosesau rheoleiddio mewn ymateb i bandemig Covid-19, cymeradwywyd Cynlluniau Mynediad a Ffioedd 2021/22 ar y sail eu bod naill ai'n nodi neu'n pennu'r lefelau ffioedd i'w codi yn 2021/22. Yn dilyn cyngor gan ein Pwyllgor Rheoleiddio, cytunodd ein Cyngor fod angen i amrywiadau gynnig ymrwymadau rheoleiddio pellach cyn blwyddyn academaidd 2021/22. Roedd yr amrywiadau'n ymdrin ag adborth a gafwyd yn dilyn asesiad o'r Cynlluniau Mynediad a Ffioedd a gyflwynwyd yn wreiddiol yn y meysydd canlynol. fu'n destun craffu gan ein Pwyllgor Rheoleiddio:
- Lefelau ffioedd
 - Partneriaeth â myfyrwyr
 - Grwpiau wedi'u tangynrychioli a gafodd gymorth
 - Amcanion i wella cyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch

Cymeradwywyd yr amrywiadau wedi hynny gan y Cyngor a chyhoeddwyd y Cynlluniau diwygiedig ar dudalennau gwe'r sefydliadau erbyn mis Awst 2021. Wrth gyflwyno'r Cynlluniau newydd, ymrwymodd pob sefydliad i gymryd pob cam rhesymol i fuddsoddi'r un gyfran o incwm ffioedd israddedig amser llawn er mwyn gwella cyfle cyfartal.

Cymeradwyo Cynlluniau Mynediad a Ffioedd 2022/23

- 2.2.6 Cawsom ddeg cais am Gynlluniau Mynediad a Ffioedd ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23 yn ystod 2020/21. Anfonwyd y rhain o wyth prifysgol a dau goleg addysg bellach sydd wedi cael eu rheoleiddio ers gweithredu Deddf 2015.
- 2.2.7 Cafodd ceisiadau Cynllun Mynediad a Ffioedd 2022/23 eu cymeradwyo gan y Cyngor, yn erbyn meini prawf a gofynion a bennwyd ymlaen llaw, fel yr argymhellwyd gan ein Pwyllgor Rheoleiddio, ym mis Gorffennaf 2021. Yn rhan o'n diwygiadau i brosesau rheoleiddio mewn ymateb i bandemig Covid-19, cafodd y Cynlluniau eu cymeradwyo ar y sail eu bod naill ai'n nodi neu'n pennu'r lefelau ffioedd i'w codi yn 2022/23, eu bod yn dynodi'r grwpiau tangynrychioledig i'w cefnogi, yn cyfleu sut roedd partneriaethau myfyrwyr wedi'u hymwreiddio y eu sefydliad, ac yn gosod amcanion i wella cyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch. Drwy gyflwyno'r cynlluniau a'n hymgysylltiad parhaus â sefydliadau, cawsom hefyd

sicrwydd fod prosesau llywodraethu boddhaol ar waith, yn ogystal â threfniadau partneriaeth â myfyrwyr.

Cydymffurfio â lefelau ffioedd

- 2.2.8 Ni chaiff sefydliadau a reoleiddir ond codi lefelau ffi a nodir mewn cynlluniau mynediad a ffioedd a gymeradwywyd gan CCAUC ar gyfer darpariaeth cyrsiau gradd amser llawn a TAR SAC. Ar ôl i gynlluniau mynediad a ffioedd gael eu cymeradwyo rydym yn rhannu manylion y lefelau ffioedd cymeradwy gyda'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. Mae lefelau ffioedd yn amrywio.
- 2.2.9 Rydym wedi monitro'r lefelau ffioedd ar gyfer y ddarpariaeth gradd amser llawn a TAR SAC sydd wedi'i nodi yng Nghynlluniau Mynediad a Ffioedd 2020/21 drwy ddadansoddi data'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr a'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, unrhyw gwynion a gafwyd a thrafodaethau â sefydliadau a reoleiddir.

2.3 Canlyniadau gweithgareddau wrth gyflawni swyddogaethau

- 2.3.1 Mae'r is-adran hon o'r adroddiad yn datgan canlyniadau cyflawni ein swyddogaethau rheoleiddiol fel maent yn berthnasol i Gynlluniau Mynediad a Ffioedd. Mae'r adran hon yn trafod canlyniadau cymeradwyo cynlluniau mynediad a ffioedd a'n gwaith i fonitro cydymffurfiaeth a lefelau ffioedd a gofynion cyffredinol cynlluniau mynediad a ffioedd.

Canlyniadau cymeradwyo Cynlluniau Mynediad a Ffioedd

- 2.3.2 Mae'r holl gynlluniau mynediad a ffioedd cymeradwy wedi cynnwys grwpiau sydd wedi'u datgan fel rhai a dangynrychiolir mewn addysg uwch. Bydd sefydliadau'n nodi gwahanol grwpiau fel grwpiau wedi'u tangynrychioli yn ôl eu cenhadaeth a'u diben, ac mae'r grwpiau a restrir isod yn enghreifftiau o'r grwpiau a gefnogir drwy'r buddsoddiad cyfle cyfartal yr ymrwymir iddo mewn Cynlluniau Mynediad a Ffioedd:
- pobl o bob oed sy'n byw yn nau gwintel isaf yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru,
 - pobl o bob oed o gymdogaethau yn y DU lle ceir cyfranogiad isel mewn AU,
 - pobl ifanc sydd wedi profi'r system ofal,
 - pobl o bob oed â chyfrifoldebau gofalu,
 - pobl o bob oed â [nodweddion gwarchoddedig](#),
 - pobl o bob oed o gefndir incwm isel, a
 - phobl o bob oed sy'n dymuno astudio addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg.

Canlyniadau monitro cydymffurfiaeth â lefelau ffioedd

- 2.3.3 Yn sgil cyflawni ein swyddogaethau i fonitro lefelau ffioedd a godir mewn sefydliadau a reoleiddir, nid ydym wedi canfod unrhyw achos lle cododd sefydliadau a reoleiddir ffioedd gormodol am gyrsiau gradd amser llawn a TAR SAC yn ystod 2020/21.

Canlyniadau monitro cydymffurfiaeth â gofynion cyffredinol Cynlluniau Mynediad a Ffioedd

- 2.3.4 Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw achos lle nad yw sefydliad a reoleiddir wedi cydymffurfio â gofynion cyffredinol Cynllun Mynediad a Ffioedd cytunedig ar gyfer 2020/21.
- 2.3.5 Yn 2020/21, ni chawsom unrhyw gwynion ynghylch cydymffurfio â gofynion cyffredinol Cynlluniau Mynediad a Ffioedd.

2.4 Methu cydymffurfio â'r system reoleiddiol ac achosion o ymyrryd

- 2.4.1 Nid oes unrhyw sefydliad a reoleiddir wedi methu cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddio cysylltiedig â chynllun mynediad a ffioedd. Gan hynny, nid oes unrhyw achosion o ymyrryd i adrodd amdanynt.

Adran 3 – Ansawdd yr Addysg

3.1 Cyflwyniad

- 3.1.1 O dan Ddeddf 2015, mae'n ofynnol i CCAUC asesu neu wneud trefniadau ar gyfer asesu ansawdd yr addysg a ddarperir yng Nghymru gan, neu ar ran, bob sefydliad a reoleiddir. Mae Deddf 2015 yn rhoi pwerau i CCAUC weithredu ynghylch darpariaeth sy'n annigonol, neu sy'n debygol o ddatblygu i fod yn annigonol, gan ddiffinio digonolrwydd yn seiliedig ar ddiwallu anghenion rhesymol y rhai sy'n derbyn yr addysg neu'n dilyn y cwrs.
- 3.1.2 Efallai y bydd CCAUC yn cyhoeddi neu'n cymeradwyo cyfarwyddyd ynghylch gwella neu gynnal ansawdd yr addysg a ddarperir gan, neu ar ran, sefydliadau a reoleiddir, ac ynghylch meini prawf ar gyfer asesu ansawdd. Cyn cyhoeddi neu gymeradwyo cyfarwyddyd o'r fath, bydd yn rhaid i CCAUC ymgynghori â chorff llywodraethu pob sefydliad a reoleiddir ac unrhyw unigolion eraill a dybir yn briodol ym marn CCAUC. Roedd yn ofynnol hefyd i CCAUC sefydlu [Pwyllgor Asesu Ansawdd](#) (PAA) i gynghori ynghylch ei swyddogaethau cysylltiedig ag ansawdd o dan Ddeddf 2015. Mae ein PAA wedi rhoi cyngor i'r Cyngor ar faterion sydd wedi'u datgan yn yr adroddiad hwn sy'n berthnasol i ansawdd.
- 3.1.3 Yn yr adran hon o'r adroddiad disgrifir y modd yr aethom ati i gyflawni ein swyddogaethau ansawdd dros y cyfnod adrodd, hyd 31 Gorffennaf 2020, yn ogystal â chanlyniadau'r swyddogaethau hynny, o ran penderfynu a yw sefydliadau a reoleiddir wedi cydymffurfio â'r system reoleiddiol.

3.2 Cyflawni swyddogaethau yn ystod y cyfnod adrodd

- 3.2.1 O dan Ddeddf 2015, mae'n ofynnol i CCAUC ymgynghori â chorff llywodraethu pob sefydliad a reoleiddir, ac unrhyw bersonau eraill yn ôl yr hyn a ystyrir yn briodol ganddynt, cyn cyhoeddi neu gymeradwyo cyfarwyddyd mewn perthynas ag ansawdd.
- 3.2.2 Yn yr adran hon, disgrifir y modd yr aethom ati i gyflawni ein swyddogaethau ansawdd yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20.

Adolygiadau allanol

- 3.2.3 Yn ôl [Fframwaith Asesu Ansawdd CCAUC o fis Ebrill 2020](#), mae'n ofynnol i sefydliadau a reoleiddir gomisiynu adolygiad sicrwydd ansawdd allanol er mwyn ymdrin â chyfrifoldebau statudol CCAUC i sicrhau bod ansawdd addysg a ddarperir gan ac/neu ar ran sefydliadau a reoleiddir yn cael ei asesu. Mae'n rhoi'r sicrwydd sy'n ofynnol o dan Ddeddf 2015 o ran ansawdd, er mwyn galluogi cymeradwyo Cynlluniau Mynediad a Ffioedd, ac felly i sefydliadau rheoleiddiedig gyrchu cymorth i fyfyrwyr ar gyfer cyrsiau TAR ac is-raddedig amser llawn. Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch ar hyn o bryd yn cael ei chomisiynu gan Brifysgolion Cymru i gynnal yr adolygiadau hyn.

Ymweliadau teirblynyddol

- 3.2.4 Yn rhan o gyfrifoldebau CCAUC o dan y Fframwaith, bydd CCAUC yn cynnal ymweliad bob tair blynedd â phob sefydliad a reoleiddir, ac yn adrodd ar ei

ganfyddiadau. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y datganiadau sicrwydd ansawdd blynyddol a lofnodir gan y corff llywodraethu. Bydd pob sefydliad sy'n derbyn ymweliad yn cael cyfle i adolygu'r adroddiad er mwyn sicrhau ei fod yn gywir cyn iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd a'i ddefnyddio gan Gyngor CCAUC yn rhan o'i Ymweliad â'r Sefydliad. Roedd canlyniadau'r adolygiadau'n cael eu bwydo i brosesau eraill CCAUC, gan gynnwys asesu cynlluniau mynediad a ffioedd a'r broses o adolygu risg sefydliadau yn flynyddol.

Cwynion

- 3.2.5 Gwnaethom adolygu data ar gwynion a wnaed gan fyfyrwyr ynghylch sefydliadau yng Nghymru wrth Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (SDA) yn 2020. Roedd SDA yn fodlon â'r diweddariad, a dywedodd y dylai CCAUC ofyn am sicrwydd ynghylch cwynion gan fyfyrwyr am un sefydliad a gyllidir gan CCAUC. nododd y Pwyllgor fod pedwar SAU yng Nghymru wedi cyhoeddi llythyrau Cwblhau Gweithdrefn a oedd yn uwch na cymedr y band. Roedd yr aelodau'n bryderus ynghylch y cynnydd yn nifer y cwynion a dderbyniwyd gan un sefydliad yng Nghymru.

Ansawdd sy'n debygol o ddatblygu i fod yn annigonol

- 3.2.6 Mae gan CCAUC gyfrifoldebau o dan Ddeddf 2015 mewn perthynas â darpariaeth sy'n 'debygol o ddatblygu i fod' yn annigonol. Yn dilyn yr ymarfer ymgynghori a gynhelir yn 2017/18, cyhoeddwyd gweithdrefnau CCAUC [ar gyfer asesu ansawdd addysg](#) ym mis Mawrth 2019. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r gweithdrefnau hyn yn ystod 2020/21.

Diwygiadau i'r Fframwaith Asesu Ansawdd

- 3.2.7 Mae Fframwaith Asesu Ansawdd Cymru yn rhoi mecanweithiau i CCAUC roi sicrwydd iddo'i hun fod ansawdd addysg, neu gwrs addysg, a ddarperir gan neu ar ran sefydliadau a reoleiddir, yn bodloni anghenion y rhai sy'n ei dderbyn. Datblygwyd y fframwaith i gyd-fynd â Deddf 2015 ac i roi ystyriaeth i newidiadau rheoleiddiol. Diweddarwyd y Fframwaith Asesu Ansawdd yn 2019/20 i ystyried datganiad sicrwydd ychwanegol ar gyfer y corff llywodraethu, ac fe'i hailgyhoeddwyd ym mis Ebrill 2020. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r Fframwaith yn 2020/21.

3.3 Canlyniadau gweithgareddau wrth gyflawni swyddogaethau

- 3.3.1 Yn yr adran hon nodir canlyniadau gweithgareddau a gynhaliwyd yn sgil cyflawni ein swyddogaethau ansawdd i asesu neu drefnu i asesu ansawdd mewn sefydliadau a reoleiddir.
- 3.3.2 Cynhaliodd yr ASA ddau adolygiad o sefydliadau a reoleiddir ac un sefydliad a ariennir. Roedd canlyniadau'r adolygiadau hyn yn foddhaol. Cynhaliwyd dau adolygiad porth yn llwyddiannus.
- 3.3.3 Cynhaliwyd pedwar ymweliad teirblynyddol yn 2020/21. Cafodd CCAUC sicrwydd ar y cyfan o'r canlyniadau. Roedd angen gwelliant mewn un sefydliad o ran y canlynol:
- sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu cynnwys wrth ymateb i faterion sy'n ymwneud ag ansawdd, a
 - chryfhau'rdeialog blynyddol rhwng y sefydliad ac Undeb y Myfyrwyr.

- 3.3.4 Ni chychwynnodd CCAUC unrhyw ymchwiliadau ynghylch ansawdd sy'n debygol o ddatblygu i fod yn annigonol yn 2020/21. Roedd CCAUC yn fodlon bod unrhyw broblemau a godwyd yn flaenorol wedi'u datrys ac nad oedd darpariaeth felly'n annigonol, nac yn debygol o ddatblygu i fod yn annigonol.
- 3.3.5 Yn 2020/21, derbyniodd CCAUC un gŵyn gymwys yn gysylltiedig ag ansawdd. Cynhaliwyd ymchwiliadau rhagarweiniol â'r sefydliad ac roedd CCAUC yn fodlon â'r ymateb a gafwyd. Ni aethpwyd ar drywydd y gŵyn ymhellach, a rhannwyd y canlyniad â'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd.

3.4 Methu cydymffurfio â'r system reoleiddiol ac achosion o ymyrryd

- 3.4.1 Nid oedd unrhyw fethu cydymffurfio â'r system reoleiddiol fel mae'n berthnasol i ansawdd ac, o ganlyniad, ni wnaethom ddefnyddio ein swyddogaethau ymyrraeth.

Adran 4 – Materion Ariannol Sefydliadau a Reoleiddir

4.1 Cyflwyniad

- 4.1.1 Dywed Adran 27(1) Deddf 2015 ei bod yn ofynnol i CCAUC baratoi a chyhoeddi cod perthnasol i sefydlu a rheoli materion ariannol sefydliadau a reoleiddir. Dywed Adran 27(2) 'Gall y Cod wneud darpariaeth ar gyfer y materion canlynol (ymhlith eraill):
- yr amgylchiadau pan fo sefydliad a reoleiddir yn gwneud trafodiad mewn dosbarth a nodir yn y Cod gyda chaniatâd CCAUC yn unig,
 - trefniadau cyfrifyddu ac archwilio sefydliadau a reoleiddir, a
 - darparu gwybodaeth i CCAUC.'
- 4.1.2 Dywed Adran 27(4) Deddf 2015 ei bod yn ofynnol i gorff llywodraethu sefydliad a reoleiddir wneud y canlynol:
- cydymffurfio ag unrhyw ofyniad a orfodir gan y Cod, ac
 - ystyried unrhyw gyfarwyddyd a geir yn y Cod.
- 4.1.3 Yn yr adran hon o'r adroddiad esbonnir sut y buom yn monitro cydymffurfiaeth â'r Cod yn 2020/21.
- 4.1.4 Fel y soniwyd yn y rhagarweiniad, rydym parhau â'r prosesau rheoleiddio diwygiedig, gan gynnwys y rhai'n gysylltiedig â threfnu a rheoli materion ariannol sefydliadau a reoleiddir. Adlewyrchir hyn yn ein hadroddiad isod.

4.2 Cyflawni swyddogaethau yn 2020/21

Monitro Cyllid

- 4.2.1 Buom yn monitro cyllid, gan gynnwys adolygu datganiadau ariannol a rhagolygon ariannol manwl pob sefydliad. Yn ystod y cyfnod adrodd, dadansoddwyd rhagolygon ariannol ddiwedd haf 2020 a datganiadau ariannol ar ddechrau 2021. Buom yn ymgysylltu'n rheolaidd â thimau cyllid, bob tymor o leiaf. Yn ogystal â hynny, dadansoddwyd diweddariadau rhagolygon ariannol yng ngwanwyn 2021 fel rhan o broses ymgeisio Cynlluniau Mynediad a Ffioedd 2022/23. Bu CCAUC hefyd yn monitro cwynion a gafodd o dan ei broses gwynion ynghylch gweithdrefnau sefydliadau lle'r oedd posibilrwydd i hynny effeithio ar gydymffurfiaeth â'r Cod Rheolaeth Ariannol.
- 4.2.2 Buom yn adolygu lefelau benthyca sefydliadau yn erbyn trothwyon cytunedig, a lle'r oedd sefydliadau'n dymuno ymrwmo i fenthyca mwy na'r trothwyon hyn cynhaliom broses ffurfiol a oedd yn cynnwys craffu ar gyllid a phrosesau llywodraethu er mwyn penderfynu a oedd cynigion yn briodol.
- 4.2.3 Fel y nodwyd yn yr Adroddiad Rheoleiddiol Blyneddol blaenorol, achoswyd risg i bob sefydliad yn sgil Covid-19. Gan hynny, o fis Mawrth 2020 buom yn ymgysylltu â sefydliadau mewn modd a adlewyrchir gwaith ymgysylltu a fyddai'n digwydd pe bai lefel 'risg uchel' wedi'i ddyfarnu mewn adolygiad risg sefydliadol. Roedd hyn yn cynnwys ceisiadau am ddiweddariadau ariannol manwl pellach a mwy o ymgysylltu parhaus â thimau cyllid.

Adolygiadau Sicrwydd Sefydliadol

- 4.2.4 Buom yn cynnal adolygiadau sicrwydd sefydliadol ar gyfer pob sefydliad a reoleiddir yng Nghymru. Ffocws yr adolygiadau hyn oedd canfod tystiolaeth o gadernid trefniadau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu'r sefydliadau eu hunain. Buom yn chwilio am y dystiolaeth hon, yn benodol, drwy'r sicrwydd a'r farn a ddarparwyd gan archwilwyr mewnol ac allanol y sefydliadau eu hunain, ac adroddiadau eu Pwyllgorau Archwilio. Roedd trafodaethau â phersonél allweddol yn y sefydliadau'n rhan hanfodol o'n gwaith adolygu sicrwydd. Cawsom hefyd gwrdd ag archwilwyr mewnol y sefydliadau. Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliodd swyddogion ddau ymweliad ffurfiol cynlluniedig i adolygu sicrwydd sefydliadol, gan gynnwys yr holl gyfweiliadau'n rhithiol.

Adolygiadau Risg Sefydliadol

- 4.2.5 Drwy ein proses Adolygu Risg Sefydliadol (ARS), cynhaliom asesiadau risg ffurfiol ddwywaith y flwyddyn o sefydliadau a reoleiddir. Defnyddiwyd amrywiaeth o wybodaeth o'r ffurflenni data diweddaraf ac o ymgysylltiad y Cyngor a swyddogion â sefydliadau i asesu risg pob un yn erbyn chwe maes allweddol - Llywodraethu a Rheoli; Cyllid; Cyfeiriad Strategol; Trosglwyddo Gwybodaeth ac Ymchwil; Myfyrwyr ac Ansawdd; ac Ystadau. Er y byddai asesiad cyffredinol fel arfer yn cael ei gynnal lle byddai pob sefydliad yn derbyn sgôr 'isel', 'canolig' neu 'uchel' o ran y graddau y oedd yn agored i risg, fel y nodwyd yng nghylchlythyr Effaith Covid-19 ar Ddarparwyr Addysg Uwch: goblygiadau o ran cyllido, rheoleiddio ac adrodd (W20/11HE), ni arweiniodd y broses adolygu risg sefydliadol at anfon llythrau sgoriau nac ARS i'r sefydliadau yn 2021, yn sgil y pandemig. Fodd bynnag, defnyddiwyd y broses i gipio meysydd gwybodaeth allweddol a nodi camau gweithredu i swyddogion CCAUC. Roedd Covid-19 yn achosi risg i bob sefydliad, ac oherwydd hynny roedd ein hymgysylltiad â sefydliadau'n adlewyrchu'r gwaith ymgysylltu pe bai lefel 'risg uchel' yn cael ei dyfarnu mewn adolygiad.
- 4.2.6 Sefydlodd y Cyngor hefyd gyfres o gyfarfodydd sefydliadol ffurfiol lle'r oedd aelodau'r Cyngor a swyddogion yn cyfarfod â phob sefydliad unwaith bob tair blynedd o leiaf, gan roi cyfle ychwanegol i drafod materion strategol â llywodraethwyr ac uwch reolwyr. Ymwelwyd â phedwar sefydliad a reoleiddir yn 2020/21.

Y Cod Rheolaeth Ariannol

- 4.2.7 Mae'r Cod Rheolaeth Ariannol (y Cod) yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC adolygu'r Cod yn barhaus ac, os yw'n briodol, paratoi a chyhoeddi Cod diwygiedig. Adolygwyd y Cod yn 2020/21 ac ni nodwyd unrhyw ddiwygiadau.

4.3 Canlyniadau gweithgareddau wrth gyflawni swyddogaethau

- 4.3.1 Mae'r adran hon yn datgan canlyniadau ein monitro ar gydymffurfiaeth â'r Cod yn ystod y cyfnod adrodd yn ôl.
- 4.3.2 Cawsom sicrwydd bod yr holl sefydliadau'n cydymffurfio â gofynion ariannol y Cod. Cawsom y sicrwydd hwn drwy ymgysylltu a chraffu.
- 4.3.3 Cynhaliom adolygiad o chwe chais am fenthyciad gan bedwar sefydliad yn 2020/21. Cafodd yr holl geisiadau am fenthyciad eu cymeradwyo.

4.3.4 O ganlyniad i Covid-19, rydym wedi cynyddu lefelau'r ymgysylltu ag Uwch Dimau Rheoli'r holl sefydliadau, er mwyn cael sicrwydd eu bod yn mynd i'r afael â'r risgiau'n gysylltiedig â Covid-19 ar fyrder, ac mewn modd priodol. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu misol rheolaidd â Chyfarwyddwyr Cyllid i ddeall a monitro darpariaeth cynlluniau i wella cynaliadwyedd ariannol a monitro llif arian ychwanegol.

4.3.5 Yn 2020/21, cafodd CCAUC un gŵyn ynghylch materion honedig a allai fod yn achosion o fynd yn groes i'r Cod mewn un sefydliad. Wrth ystyried y gŵyn hon, gwelwyd nad oedd unrhyw achos o fynd yn groes i'r Cod, ac nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach.

4.4 Methu cydymffurfio â'r system reoleiddiol ac achosion o ymyrryd

4.4.1 Cyflawnwyd ymyrraeth anffurfiol mewn un sefydliad o ganlyniad i achos difrifol o dorri'r Cod Rheolaeth Ariannol (CRhA) yn 2018/19. Parhaodd swyddogion CCAUC i fonitro'r cynllun gweithredu i ymdrin â'r materion a nodwyd yn ystod 2020/21, er mwyn sicrhau ymdriniaeth briodol â'r materion.

4.4.2 Nid oedd unrhyw achosion o fod angen ymyrraeth ffurfiol mewn perthynas â methu cydymffurfio, neu debygolrwydd o fethu cydymffurfio, â'r Cod yn ystod y cyfnod adrodd.

Adran 5 – Datganiad Ymyrraeth

- 5.1 Mae [Datganiad Ymyrraeth](#) llawn wedi'i sefydlu. Mae'r Datganiad yn amlinellu pwerau ymyrraeth CCAUC o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.
- 5.2 Mae'r Datganiad Ymyrraeth yn cael ei adolygu'n barhaus gan Bwyllgor Rheoleiddio CCAUC. Mae meysydd i'w gwella yn y Datganiad wedi'u nodi ond nid ydynt yn achosi rhyw lawer o newid i'n sail ar gyfer rheoleiddio, ac ni fyddant yn cael rhyw lawer o effaith ar bolisi'r Llywodraeth. Yng ngoleuni'r bwriadau i ddiddymu CCAUC, cytunwyd felly na ddylid gwneud y gwelliannau hyn ar hyn o bryd ond y dylid eu rhannu â'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd pan gaiff ei sefydlu.

Adran 6 – Datganiad Sicrwydd

- 6.1 Mae'r adran hon yn darparu datganiad sicrwydd blynyddol gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC neu'r Cyngor) i Lywodraeth Cymru ar gydymffurfiaeth y sefydliadau a reoleiddir â'r system reoleiddiol a osodwyd yn Neddf 2015 ac yn tynnu sylw at unrhyw feysydd pryder neu risg.
- 6.2 Yn ôl asesiad y Cyngor, bu cydymffurfiaeth y sefydliadau â'r gofynion rheoleiddiol a orfodir gan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, ar draws y sector a reoleiddir, yn foddhaol ar y cyfan. Os tynnwyd sylw at broblemau penodol yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r Cyngor wedi mynd ar drywydd y problemau hynny'n drwyadl gyda'r sefydliadau dan sylw, fel y nodwyd uchod.